Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher yr 28ain o Fedi 2011 am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Julia Jones, Y Dirprwy Faer y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Charlotte Leadbeater.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Dim.

Doedd dim materion yn ymwneud â'r Heddlu.

Cof 158/ Medi / 11 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 27ain o Orffennaf 2011, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish.
Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 24ain o Awst 2011, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 14eg o Fedi 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn wedi ychwanegu enw'r Cyng. Charlotte Leadbeater at y rhai a oedd yn bresennol.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish.
Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 14eg o Fedi 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 159 / Medi / 11 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol
Ynglŷn â Cof 122/ Gorff /11. Adroddodd y Clerc am gyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies a Mr Geoffrey Williams, ynglŷn â'r ymateb i lythyr Network Rail mewn perthynas â llwybr caniataol i lan yr afon. Rhoddodd Mr Williams gyngor amhrisiadwy. Erbyn hyn, roedd y Clerc wedi anfon llythyr i Network Rail yn nodi dymuniad i agor trafodaethau pellach.
Rhoddodd y Cyng. Charlotte Leadbeater ddiolch i'r Maer am agor Diwrnod Agored yn y Neuadd Ddinesig yn ddiweddar, ac am y gefnogaeth a roddwyd gan y Cynghorwyr.

Cof 160/ Medi / 11 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Geraint Price ynglŷn â chau'r heol er mwyn cynnau goleuadau'r Nadolig. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn diolch i Mr Price am ei gynnig i gynnwys y Cyngor yn nhrefniadau Gŵyl y Synhwyrau ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Byddai'r Swyddog Technegol yn trafod gyda Mr Price.
2. Lynne Beer, Swyddog Galluogi Tai Gwledig. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod Ms Beer yn cael ei gwahodd i annerch y Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater.

Cof 161 / Medi / 11 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Alex Smith yn hysbysu'r Cyngor mai Graeme Wilkinson fyddai gohebydd dynodedig y Journal o hyn ymlaen.
2. Caroline Ferguson ynglŷn â llwybr troed 69/1 Glynceirch. Roedd y cynllun gwella a argymhellir ar gyfer y llwybr troed hwn wedi cael ei roi yn nwylo Martin Murray, Ceidwad Llwybrau Troed CSG.
3. Copi o lythyr oddi wrth Mark James i Jonathan Edwards yn cadarnhau cefnogaeth CSG i ffordd osgoi i gael ei hadeiladu yn Llandeilo cyn gynted ag sy'n bosib.
4. Steve Thomas ynglŷn â llythyr yn gwrthwynebu cais cynllunio Sainsbury's. Byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr i gyd.
5. Mr John McEvoy, Rheolwr Traffig CSG, yn cadarnhau y bydd CSG yn cwblhau gwaith i dacluso'r maes parcio.
6. Mr John McEvoy yn hysbysu'r Cyngor ei fod wedi pasio pryderon y Cyngor mewn perthynas â pharcio tu allan i'r Eglwys ymlaen i'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

Cof 162 / Medi /11 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

*CGGC (gweinyddu cyflogres Medi 2011)	£	24.30
*CGGC (taliad oriau ychwanegol y Swyddog Technegol)	£	147.52
* Orchardweb (ffioedd gwe-letya)	£	221.59
BT - Rhent ffôn y swyddfa (talwyd trwy archeb sefydlog)	£	46.88

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu pasio i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
* Talwyd y rhain trwy BACS.

Cof 163 / Medi /11 Materion Ariannol Eraill

1.Adnewyddu Polisi Yswiriant y Cyngor
Cytunwyd i dderbyn contract 5 mlynedd gyda Zurich Municipal, a fyddai'n galluogi'r Cyngor i wneud arbedion sylweddol. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
2.Rheolaeth Ariannol Fewnol.
Cytunwyd y byddai'r eitem hon yn cael ei gosod ar yr Agenda ar gyfer Cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref.

Cof 164/ Medi /11 I gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhelir ar y 5ed o Hydref 2011.

Darllenodd y Clerc y trefniadau a gytunwyd ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus sydd ar ddod.

1) Byddai yna 2 gyflwyniad
   a) Gan Sainsbury's yn cefnogi eu cais Cynllunio.
   b) Gan Simon Buckley ar ran Save Llandeilo's Future, yn gwrthwynebu'r datblygiad sy'n arfaethedig gan Sainsbury's.

Byddai pob cyflwyniad yn para 15 munud.

2) Yn dilyn hyn, byddai sesiwn 30 munud, ble byddai cwestiynau, a dderbynnir gan y Clerc erbyn y 29ain o Fedi, yn cael eu gofyn i'r parti priodol i'w hateb.
3) Yna, byddai'r siaradwyr yn cael eu gwahodd i adael y llwyfan.
4) Byddai'r 30 munud olaf yn agored i'r llawr, er mwyn i aelodau o'r gynulleidfa i leisio eu barnau. Ni fyddai unrhyw gwestiynau'n cael eu caniatáu oddi wrth y llawr.

Cof 165/ Medi /11 Adroddiad y Cynghorydd Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y byddai 1 o bob 3 o'r goleuadau stryd ym mhob ardal gyhoeddus a'r maes parcio yn Llandeilo yn cael eu diffodd rhwng 12.30yb - 5.30yb.

Adroddodd fod y clwb cinio'n gwneud yn dda ym Maes Elfryn.

Mewn ymateb i gwestiynau yn ystod y cyfarfod, dywedodd y Cynghorydd Sir nad oedd modd i'r gwaith ar yr ysgol uwchradd newydd i gychwyn nes bod yr arian a addawyd yn cael ei drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Holodd y Cyng. Ros Bellamy a fyddai CSG yn medru darparu arwyddion ar gyfer teithwyr sy'n defnyddio'r llwybrau troed o'r orsaf rheilffordd i'r Dref.

Roedd y Cyng. Fran Murphy yn dymuno diolch i CSG a'r Asiantaeth Cefnffyrdd am gwblhau'r groesfan ysgol newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones y byddai'n cynnal arolwg o ddrws i ddrws, i ymgynghori â'r trigolion lleol ynghylch cais Sainsbury's. Byddai'n falch pe byddai unrhyw Gynghorydd unigol yn medru ei gynorthwyo. Dywedodd y Clerc fod y Cyngor wedi pleidleisio o blaid cynnal cyfarfod Cyhoeddus yn hytrach na chynnal arolwg ar y stryd.

Cof 166/ Medi /11 Doedd dim Materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd.

Cof 167/ Medi /11 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Cyngor. Roedd wedi gofyn am gopïau o'r polisi yswiriant a'r asesiadau risg oddi wrth y cwmni Tân Gwyllt dan gontract, sef Kimbolton Fireworks Ltd.

Gofynnwyd i Westward Heating i ymchwilio i ollyngiad o dan y llawr yn Neuadd y Sir.

Dywedodd y Cyng. Roy Davies y byddai'n trefnu i gwrdd gyda Mr Davies mewn perthynas â chynnydd y plannu yng Ngardd Heol Cilgant.

Cof 168 / Medi / 11 Adroddiad y Maer.

Rhoddodd y Maer ei adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis diwethaf.

Cof 169/ Medi /11 Adroddiadau Eraill.

i) Is-grŵp Tân Gwyllt

Cyflwynodd y Cyng. Ros Bellamy adroddiad oddi wrth yr is-grŵp Tân Gwyllt. Roedd y grŵp wedi gweithio'n ddiwyd i baratoi rhaglen o hysbysebion noddedig. Cost argraffu 1000 o raglenni oedd £690. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Glwb y Ford Gron, Clwb y Rotari a Ffermwyr Ifanc Llandeilo i ofyn am eu cymorth wrth stiwardio'r digwyddiad.

ii) Is-grŵp Goleuadau'r Nadolig

Cyflwynodd y Cyng. Edward Thomas adroddiad i'r Cyngor. Byddai goleuadau'r Nadolig yn cael eu cynnau ar y 18fed o Dachwedd, am 6.30yh. Byddai'r Cyngor yn anfon llythyrau i fasnachwyr lleol yn gofyn iddynt, pe byddent yn cynnig diodydd

alcoholig i'w cwsmeriaid, i sicrhau eu bod yn cael eu hyfed ar eu safleoedd nhw a'u bod yn cael eu gweini mewn cwpanau plastig. Byddai pwyntiau angori ar gyfer goleuadau'r Nadolig yn cael eu profi ar ddydd Sul y 9fed o Hydref.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn rhoddi £750 i Ŵyl y Synhwyrau ar gyfer y digwyddiad eleni ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Byddai'r swm uwch yn cael ei roi oherwydd bod yr Ŵyl wedi colli ei phrif ffynhonnell o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd pawb o blaid.

Cof 170 / Medi /11 Eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

1. Cafwyd cais gan y Cyng. Edward Thomas bod ystyriaeth i roi rhodd i apêl y glowyr lleol, yn dilyn marwolaeth pedwar glöwr, yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid
2. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Mr Michael Rees am ei rodd i elusen, wedi i'w dŷ gael ei beintio yn lliwiau Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50yh.